

❖ **DYDD NADOLIG: Y CRIST**

Ac Ef oedd y Gair. Dichon nad oedd y cadachau
 yn deilwng o'r Ymgawdoliad ym Methlehem dref,
 eithr caed rhwng yr asyn a'r bustach y goruchaf ei achau,
 ac yng nghanol aerwyau a rhaslau, y Crist o'r nef.

Alan Llwyd

Nid ym mhalasau'r brenin nac mewn gwesty gwych y ganwyd Mab Duw i'n byd. Mewn stabal ddi-nod, yng nghanol baw a budreddi'r anifeiliaid, y cafwyd y baban rhyfeddol hwn. Duw yn ymdrybaeddu mewn baw. 'Gwnaeth ei babell gyda dynion...'

'A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd...'

Llefaru wrth ei bobl, eu cyfarch, y mae Duw bob amser. Cyhoeddodd ei Air mewn addewid trwy'r Tadau a'r Proffwydi a mynegodd ei ewyllys yn ei bobl a thrwyddynt. Y gwahaniaeth mawr yn awr, fodd bynnag, yw ei fod yn llefaru wrthym mewn Mab.

Yn ein cnawd ni mae Duw yn preswyllo. Am hynny, ni all y telpyn hwn o glai fyth fod yr un fath eto. Ym Methlehem a Golgotha a thu draw i'r Dioddefaint mae 'preswylfa (pabell) Duw gyda'r ddynoliaeth' (Datguddiad 21:3).

Daeth presenoldeb parhaol a digyfnawid Duw ymhlith dynion i'w gyflawnder pan na ellid mwyach weld Iesu ymhlith y cylch bach cyfyng ym Mhalesteina, ond wedi ei ddyrchafu (yn ein natur ni) i eistedd ar ddeheulaw Duw. Oddi yno mae'n ymestyn i gyrraedd pobloedd a chalonnau eraill. Dyma pam mae Iesu yn adrodd dro ar ôl tro yng nghlyw y disgyblion, 'Os yw rhywun yn fy ngharu, bydd yn cadw fy ngair i, a bydd fy Nhad yn ei garu, ac fe ddown ato a gwneud ein trigfa gydag ef' (Ioan 14:23).

Y cwestiwn sy'n aros yw, a yw yn trigo yn dy galon di? Dim ond wedyn y gallwn ninnau ymuno yn yr anthem: 'Daeth y gair yn gnawd ac mae'n preswyllo yn fy nghalon i.'